OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2800

## Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006, a deuant i rym ar 20 Hydref 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i geisiadau am grant a wneir i awdurdodau tai lleol yng Nghymru ar 20 Hydref 2006 neu ar ôl hynny(**1**).

**Diwygiadau**

**2.** Diwygir Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) 1996(**2**) yn unol â'r rheoliadau a ganlyn.

**Rheoliad 2**

**3.** Yn rheoliad 2 (ffurflenni cais am grant)(**3**), ym mharagraff (1) ar ôl "Schedule" rhodder "or a form to the like effect".

**Yr Atodlen**

**4.** Mae'r ffurflen a welir yn yr Atodlen yn cael ei diwygio yn y modd a welir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

17 Hydref 2006

(**1**) I gael ystyr "grant" *gweler* adran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 2 o Atodlen 3 i Orchymyn Diwygio Rheolaethol (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 (O.S. 2002/1860).

(**2**) O.S. 1996/2891, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3119, O.S. 1997/978, O.S. 1998/809, O.S. 1999/1607, O.S. 1999/3470 (Cy. 56), O.S. 2000/1735 (Cy. 119), O.S. 2001/2071 (Cy. 143), O.S. 2001/4006 (Cy. 332), O.S. 2002/2799 (Cy. 267) ac O.S. 2004/254 (Cy. 29).

(**3**) Amnewidiwyd Rheoliad 2, o ran Cymru, gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/254).

(**4**) 1998 p. 38.